



Un Llais Cymru



One Voice Wales

Astudiaeth Enghreifftiol o Hybiau Cynnes Cyngor Tref Prestatyn

Cip cyflym

Mae menter Hybiau Cynnes Cyngor Tref Prestatyn yn arddangos gwytnwch a chefnogaeth gymunedol yn ystod cyfnodau heriol. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw ac unigedd cymdeithasol trwy ddarparu lleoedd cynnes, croesawgar i drigolion.

Metrigau allweddol

- Cyfanswm cost y fenter yn 2022/23 oedd £6,541.59 dros 6 wythnos.
- Cafwyd cyfraniad o £4,000 o Grant Croeso Cynnes.
- Roedd yr amserau agor ymhob safle yn amrywio o 3-5 awr y dydd.
- Banwyd fod yr effaith ar lesiant a chefnogaeth gymunedol yn drech na'r buddsoddiadau ariannol.



£6,541

Cost y Fenter



1341

Nifer a Fynychodd

"...byddem yn colli hyn yn fawr iawn pe bai'n newid"

Person Lleol

Heriau

Roedd y fenter, a lansiwyd i fynd i'r afael â heriau'r argyfwng costau byw ac unigedd cymdeithasol, yn ceisio rhoi sylw i nifer o bryderon allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys costau ynni'n codi, diffyg cyfleoedd i gymdeithasu, iechyd meddwl a'r risg i iechyd corfforol oherwydd diffyg gwres a methu fforddio pryd bwyd cynnes yn ystod y misoedd oer.

Atebion

Mae menter Hybiau Cynnes yn cynnig hoe yn ysod y dydd, cyfleoedd i gymdeithasu, gweithgareddau, lluniaeth, a gwasanaethau gwybodaeth/cyngor i drigolion mewn lleoliadau gwahanol yn wardiau Meliden a Phrestatyn. Mae'n helpu pobl sy'n ei chael yn anodd i wresogi eu cartrefi trwy gynnig lluniaeth am ddim, prydau bwyd poeth, ac mae cyngor ar gael gan bartner fudiadau. Mae trefn o'r fath yn diwallu anghenion economaidd a chymdeithasol ac yn annog pobl i wirfoddoli a chyfrannu i'w cymuned a chreu cymuned gefnogol.



Lle Cynnes



Pryd Bwyd Poeth



Gwneud Ffrindiau Newydd

Cyfnodau Allweddol

1

Asesu Anghenion

Cynnal arolygon neu ymgynghoriadau cymunedol i benderfynu'r angen a chasglu gwybodaeth am leoliadau a gwasanaethau.

2

Lleoliad a Chyfleusterau

Dod o hyd i leoliad hygyrch sy'n cynnwys gwres, seddi, cyfleusterau cegin ac ystafelloedd ymolchi.

3

Cyllid

Defnyddio cyllid Adran 137, grantiau eraill, a chwilio am arian ychwanegol oddi wrth elusennau, busnesau, ac ymdrechion cymunedol.

Partneriaethau

4

Cydweithio gydag elusennau lleol, iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol i gynnig cefnogaeth gynhwysfawr.

5

Defnyddio Gwirfoddolwyr

Denu a hyfforddi gwirfoddolwyr ar gyfer gwaith a chefnogaeth ddyddiol.

6

Hyrwyddo a Hygyrchedd

Hyrwyddo trwy'r cyfryngau a rhwydweithiau; gofalu ei fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau.

7

Monitro a Gwerthuso

Sefydlu trefniadau adborth er mwyn gwneud gwelliannau parhaus i gwrdd ag anghenion y gymuned.

Fideo Hwb Cynnes Prestatyn



“Mae’n lle braf i ddod a chyfarfod pobl, yn enwedig os ydych yn y tŷ ar eich pen eich hun ac mae’r tywydd yn oer iawn”
Person Lleol

Grymoedd a Ddefnyddiwyd gan Gyngor Tref Prestatyn



Mae Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn rym cyfle olaf:

Mae’n caniatáu i gynghorau cymuned wario arian ar weithgareddau sydd o fudd i’r gymuned pan nad oes grym penodol arall ar gael. Gellid cyfiawnhau sefydlu hwb cynnes oherwydd ei fod yn cynnig budd i bobl leol ar yr amod fod y Cyngor yn penderfynu fod yr arian fydd yn cael ei wario yn gymesur â’r budd a geir ohono.



Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015:

Mae’n annog cynghorau i wella llesiant eu hardal trwy egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae darparu hwb cynnes yn cefnogi nodau fel gwella iechyd, llesiant, a chydlynedd cymunedol.



Grym i brynu neu ddarparu a dodrefnu adeiladau cymunedol:

Mae’r rhain yn cynnwys bwyd a lluniaeth ar gyfer yr Hwb Cynnes, gwres, cyfleusterau tai bach, cwpanau ac ati.



Grym i ddarparu adeiladau i’w defnyddio gan glybiau neu gymdeithasau a chanddynt amcanion athletaidd, cymdeithasol neu hamdden:

Mae’r rhain yn cynnwys lleoliadau’r Hybiau Cynnes, megis Siambr y Cyngor, canolfannau cymunedol ac eglwysi




lleol Mae’r rhain yn enghreifftiau gan Gyngor Tref Prestatyn ac nid ydynt yn argymhellion:


Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â’u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru.

admin@onevoicewales.wales

Cerdd gan un o drigolion Hwb Cynnes Cyngor Tref Prestatyn



Twf yr Hybiau Cynnes dros gyfnod o ddwy flynedd



Y Dyfodol

Mae Cyngor Tref Prestatyn wedi gweld cynnydd o 50% mewn 12 mis yn nifer y trigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn. Maen nhw'n parhau'n rhagweithiol yn darparu sawl prosiect i ychwanegu at a gwella'r ffordd y caiff y strategaeth ei chyflawni er mwyn cyfoethogi bywydau pobl yn eu cymuned.

Eisiau Gwybod Mwy?

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:



CoLC@onevoicewales.wales



<https://bit.ly/3KYHftK>